

# Tîm Ymateb Cynnar

## Yr Hyn yr Ydym yn Ei Ddarparu

Mae'r Tîm Ymateb Cynnar (TYC) wedi ymrwymo i roi cymorth dwys, cyfyngedig o ran amser i bobl ifanc a'u teuluoedd neu ofalwyr ar adeg o argyfwng i atal chwalfa trwy nodi beth ddylai fod ar waith i'r plant gael aros.

## Y Tîm

Yn y tîm mae 7 Gweithiwr Ymyrraeth Deuluol sydd ag amrywiaeth o brofiad perthnasol. Rheolwr Tîm Cynorthwyol, sydd â chymhwyster Gwaith Cymdeithasol ac sydd â nifer o flynyddoedd o brofiad o weithio gyda Phlant a Theuluoedd a Rheolwr Tîm â chefnidir mewn gwasanaethau statudol plant a theuluoedd.

## Pa deuluoedd mae'r tîm yn eu cefnogi

Unrhyw deuluoedd/gofalwyr â phlant dan 16 oed sy'n gallu derbyn gwasanaethau statudol Plant a Theuluoedd ac sydd angen cymorth dwys. Nod yr ymyrraeth yw sicrhau llety, atal methiant lleoliad maeth, cefnogi adferiad gartref, atal chwalfa gosod â rhiant a rhoi cymorth gyda lles.

Bydd ymgynghoriad â'r teulu am yr atgyfeiriad ac yn cael gwybodaeth am y tîm. Rhaid iddyn nhw wedyn gytuno i weithio gyda'r tîm Ymateb Cyflym, teimlo bod yna argyfwng a'u bod am wneud newidiadau.

## Y Broses

Gall gweithwyr cymdeithasol, gyda chytundeb eu Rheolwr neu Reolwr Grŵp, gyfeirio at y gwasanaeth dros y ffôn/Microsoft Teams, a chaiff ffurflen atgyfeirio ei chwblhau dros y ffôn. Os yw'r achos yn cael ei ystyried yn gymwys, ac mae gan y tîm gapasiti, trefnir gweithiwr a bydd amser ymateb nad yw'n hirach na 48 awr yn cael ei gytuno. Os nad oes capasiti i ddyrannu, bydd y gweithiwr ar ddyletswydd Ymateb Cyflym yn ymweld ynghyd â'r Gweithiwr Cymdeithasol.

Bydd gwaith yn dechrau ar ôl ymweliad cychwynnol gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol yn yr achos.

Caiff disgwyliadau am y gwaith eu cytuno ar adeg yr atgyfeiriad. Bydd achosion yn parhau ar agor i Weithiwr Cymdeithasol yr achos ac yn destun gwaith trwy ddyraniad eilradd gan y gweithiwr Ymateb Cyflym.

Bydd y pecyn gwaith sy'n cael ei wneud yn benodol at yr achos hwnnw a bydd wedi ei addasu at yr anghenion a nodwyd yn yr atgyfeiriad. Mae'r gwaith yn seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar y plentyn.

Bydd y gweithiwr Ymateb Cyflym yn ymweld â'r teulu am wyth wythnos, gydag ymweliadau'n lleihau tua diwedd y cyfnod. Bydd y gweithiwr yn mynd i gyfarfodydd ag asiantaethau eraill ble mae gofyn ac yn cynhyrchu adroddiad ymyrraeth bys ar ddiwedd yr wyth wythnos. Bydd yr achos yn cael ei adolygu ar ôl pedair wythnos i fonitro cynnydd a gweld a oes angen ymyrraeth bellach gan asiantaethau neu wasanaethau eraill ar ôl yr wyth wythnos cychwynnol, neu a ddylid cau'r achos.

Bydd y gweithiwr Ymateb Cyflym hefyd yn gwneud adroddiad i gynadleddau diogelu plant os yw hynny'n berthnasol.

Mae'r Tîm Ymateb Cyflym yn:  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y  
Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB

**Tîm Dyletswydd Brys 0800 3284432**

Mae'r tîm Ymateb Cyflym hefyd yn  
gweithio o gartref fel rhan o  
amgylchedd cymysg cartref/gwaith